www.xtrapapers.com

# Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014 – Bore

## LEFEL 1/2 CYMHWYSTER CENEDLAETHOL CAERGRAWNT MEWN TGCh

**R001/02** Deall Systemau Cyfrifiadurol

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Amser:** 1 awr

*3272373867*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

- Mae hwn yn gopi glân o'r Astudiaeth Achos y dylech fod wedi ei gweld eisoes.
- Dylech gyfeirio ati wrth ateb cwestiynau'r arholiad sydd wedi eu hargraffu mewn llyfryn ar wahân.
- **Ni** chewch fynd â'ch copi blaenorol o'r Astudiaeth Achos i'r arholiad.
- **Ni** chewch fynd â nodiadau i'r arholiad.
- Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **4** tudalen. Caiff unrhyw dudalennau gwag eu nodi.

**CYFARWYDDYD I'R SWYDDOG ARHOLI/GORUCHWYLIWR**

- Peidiwch ag anfon yr Astudiaeth Achos hon i'w marcio; dylid ei chadw yn y ganolfan neu'i hailgylchu. Cysylltwch â Hawlfraint OCR os byddwch yn dymuno ailddefnyddio'r ddogfen hon.

© OCR 2014 [K/503/6025]
DC (SJF) 90549/1
Mae OCR yn Elusen eithriedig

**Trowch y dudalen**

www.xtrapapers.com



## Gwybodaeth i Ddysgwyr

Mae'n ofynnol i ysgolion storio a chynnal data am y myfyrwyr sy'n mynd i'r ysgol honno. Mae llawer o'r data hwn, fel presenoldeb a chanlyniadau profion, wedi'i seilio ar ffigurau mae'r ysgol yn eu cynhyrchu. Mae data arall yn cael ei gasglu gan rieni. Mae llawer o ysgolion yn cyflogi staff i reoli a chynnal y data sy'n cael ei gasglu a'i storio. Mae'r staff hyn yn aml yn gweithio fel tîm mewn un swyddfa. (Sefyllfa 1)

Mae ysgolion yn aml yn perfformio digwyddiadau ac yn gwerthu tocynnau ar gyfer y perfformiadau. Mae gwaith trefnu'r digwyddiadau hyn fel arfer yn cael ei rannu rhwng staff a myfyrwyr. (Sefyllfa 2)

## Sefyllfa 1

Mae Ysgol Austin yn un o chwe ysgol uwchradd sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr rhwng 11 ac 16 oed. Gall rhieni ddewis unrhyw un o'r chwe ysgol hyn ar gyfer eu plant ac felly mae'r ysgol yn recriwtio myfyrwyr o bob rhan o'r ddinas. Mae'r ysgol yn cyflogi pedwar o bobl i gasglu a rheoli'r data sy'n cael eu storio am fyfyrwyr. Y Tîm Data yw'r enw amdanynt ac maent yn gweithio mewn swyddfa ganolig ei maint. Mae dau aelod o'r tîm yn rhannu swydd, ac felly dim ond tri chyfrifiadur bwrdd gwaith (*desktop*) sydd yn y swyddfa. Yn ystod cyfnodau prysur iawn o'r flwyddyn, bydd gofyn i bob aelod o'r tîm weithio ar yr un pryd. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd gliniadur (*laptop*) yn cael ei ddarparu fel bod pob un o'r pedwar aelod yn y tîm yn gallu gweithio yn yr un swyddfa ar yr un pryd.

Ar ôl llawer o waith ymchwil, mae Ysgol Austin wedi prynu pecyn meddalwedd o'r enw System Rheoli Gwybodaeth Cyfoeth o Ddata. Mae'r system hon yn defnyddio cronfa ddata i drefnu a storio gwybodaeth am fyfyrwyr.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ysgol, mae pob ysgol gynradd o bob rhan o'r ddinas yn anfon eu **holl** ddata ar gyfer **pob un** o'u myfyrwyr blwyddyn 6 i bob un o'r ysgolion uwchradd. Wedyn, mae Ysgol Austin yn mewnforio'r data mae'n eu derbyn i System Rheoli Gwybodaeth Cyfoeth o Ddata, yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr yn ymuno â'r ysgol o ran wahanol o'r wlad, bydd holl ddata'r myfyriwr yn cael ei gofnodi â llaw.

## Sefyllfa 2

Mae'r Pennaeth Saesneg yn Ysgol Austin wedi ysgrifennu drama o'r enw 'The Firework Knights'. Mae'r ddrama hon yn mynd i gael ei pherfformio yn yr ysgol gyda'r nos o 5 Rhagfyr i 9 Rhagfyr.

Mae angen dylunio poster a thocyn ar gyfer y ddrama. Mae dau fyfyriwr, Maria a Stephen, wedi gwirfoddoli i greu geiriad a chynllun yr eitemau hyn. Mae'r Pennaeth Celf eisoes wedi creu graffigwaith ar gyfer y poster. Mae gan Maria a Stephen benwythnos yn unig i wneud y gwaith hwn ac ni fydd yn bosibl iddynt gyfarfod. Maent wedi cytuno y bydd Stephen yn dylunio a chreu'r poster a bydd Maria yn dylunio a chreu'r tocyn gan ddefnyddio meddalwedd cyhoeddi bwrdd gwaith. Wedyn, byddant yn anfon eu gwaith at ei gilydd i gael adborth.

Bydd pobl yn gallu archebu tocynnau ar gyfer y perfformiad trwy lenwi ffurflen ar-lein. Bydd gofyn i bobl sy'n gwneud cais am docynnau ddweud pa noson y maent yn dymuno mynd i weld y ddrama a nifer y tocynnau mae eu hangen arnynt. Bydd gofyn iddynt roi eu henw llawn a'u rhif ffôn hefyd.

© OCR 2014 

www.xtrapapers.com



**Paratoi**

I baratoi ar gyfer yr arholiad, dylech chi ymchwilio i'r modd mae gwybodaeth am fyfyrwyr yn cael ei rheoli mewn ysgolion. Dylai hyn gynnwys:

- y ffactorau a allai ddylanwadu ar ddewis pa system rheoli gwybodaeth i'w defnyddio
- y feddalwedd a'r caledwedd mae eu hangen i redeg system rheoli gwybodaeth

Bydd angen i chi ddod i wybod sut mae deddfwriaeth (*legislation*) yn effeithio ar y canlynol:

- storio, trosglwyddo a defnyddio gwybodaeth bersonol
- cyflogwyr, staff, myfyrwyr a chynhyrchu dogfennau.

Dylech ddod i wybod am sut mae modd creu ystod o ddogfennau fyddai'n cael eu defnyddio yng nghyd-destun drama ysgol.

Dylai hyn gynnwys:

- y feddalwedd a'r caledwedd sy'n gallu cael eu defnyddio i greu'r dogfennau, gan ganolbwyntio'n benodol ar galedwedd, gan gynnwys llechen graffeg, sy'n gallu cael eu defnyddio i greu graffigwaith o ansawdd uchel
- defnyddio TGCh i gasglu gwybodaeth a data gan drydydd partïon
- technegau ar gyfer cyfuno data sy'n cael eu cadw mewn fformatau gwahanol.

© OCR 2014 

www.xtrapapers.com



**Gwybodaeth am Hawlfraint**

Mae OCR wedi ymrwymo i ofyn caniatâd i atgynhyrchu'r holl gynnwys trydydd parti y mae'n ei ddefnyddio yn ei ddeunyddiau asesu. Mae OCR wedi ceisio nodi a chysylltu â phob deiliad hawlfraint y defnyddir eu gwaith yn y papur hwn. I osgoi datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag atebion i ymgeiswyr, atgynhyrchir pob cydnabyddiaeth hawlfraint yn Llyfryn Cydnabyddiaeth Hawlfraint OCR. Cynhyrchir hwn ar gyfer pob cyfres o arholiadau, ac mae ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan gyhoeddus (www.ocr.org.uk) ar ôl y gyfres arholiadau byw.

Os yw OCR yn anfwriadol wedi methu cydnabod neu glirio unrhyw gynnwys trydydd parti yn y deunydd asesu hwn, bydd OCR yn falch o gywiro hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Ar gyfer ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â: Copyright Team, First Floor, 9 Hills Road, Cambridge CB2 1GE.

Mae OCR yn rhan o'r Cambridge Assessment Group;  Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt.

© OCR 2014